# MEMORANDWM CYWIRIADAU A OSODWYD GERBRON Y CYNULLIAD O DAN REOL SEFYDLOG 22.13

## Rheoliadau Trefniadau Gweithrediaeth Awdurdodau Lleol (Swyddogaethau a Chyfrifoldebau) (Diwygio) (Cymru) 2003

Y Cefndir

Cafodd Rheoliadau Trefniadau Gweithrediaeth Awdurdodau Lleol (Swyddogaethau a Chyfrifoldebau) (Diwygio) (Cymru) 2003 ("y Rheoliadau"), y mae'r memorandwm hwn yn berthnasol iddynt, eu hystyried gan y Pwyllgor Busnes ar 10 Rhagfyr 2002, eu gosod gerbron y Cynulliad Cenedlaethol ar 20 Rhagfyr 2002 a'u hystyried gan y Pwyllgor Deddfau ar 14 Ionawr 2003.

Nodwyd materion penodol gan y Pwyllgor Deddfau fel rhai priodol i'w Cywiro o dan Reol Sefydlog 22.13.

**Y Diwygiadau**

**1.** Yn y rhaglith i'r testunau Cymraeg a Saesneg yn y Rheoliadau hepgorwch y geiriau "32,".

**2.** Yn y testun Saesneg o baragraff cyntaf rheoliad 2 mae'r gair "are" yn y drydedd linell i'w ddisodli gan y gair "is".

**3.** Yn y testun Cymraeg o reoliad 2(a) mae'r geiriau a danlinellir "Cynlluniau a Strategaethau" a "Cyfeiriad" i'w hepgor ac yn y testun Saesneg mae'r geiriau a danlinellir "Plans and Strategies" a "Reference" i'w hepgor.

**4.** Yn y testun Saesneg mae'r troednodiadau "a" a "b" ar waelod y tudalen cyntaf i'w diwygio i ddarllen "(a)" a "(b)" yn ôl eu trefn.

**5.** Yn y testun Saesneg yn Rheoliadau 2(b) a 2(c) mae'r gair “repealed” i'w ddisodli gan y gair “revoked”.

Y Rheswm dros y Diwygiadau:

**a.** Mewnosodwyd y cyfeiriad at adran 32 o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000 drwy gamsyniad ac mae angen ei dynnu oddi yno.

**b.** Mae'r diwygiadau eraill a nodir uchod yn gamgymeriadau teipograffyddol y mae angen eu cywiro.

Ionawr 2003

**Edwina Hart**
Y Gweinidog dros Gyllid, Llywodraeth Leol a Chymunedau